CYLCHLYTHYR | NEWSLETTER

# Lois M Adams

Efengylydd Creadigol ac Artist Cymunedol
*Creative Evangelist & Community Artist*

www.loisadams.art
lois.adams@cwmpawd.org
07800901022
@lois.adams.921
1 The Avenue, Cardiff. CF3 3EG



O dan ofal Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd.
*Under the care of Welsh Evangelical Church, Cardiff.*

## Uchafbwyntiau'r tymor diwethaf Mai - Awst 2024

## *Highlights from last term May - August 2024*







Gweler adroddiad: *See article (in Welsh):* www.loisadams.art/_files/ugd/d37894_d4060b77ec874f369debea55c5879cc6.pdf

**1-8 Mai: Capel Presbyteraidd Bethesda, Y Wyddgrug.**
Cyd-weithiwyd gyda'r eglwys i gynnal Arddangosfa Gelf **'Merched y Beibl'** a lansiwyd yn ystod Dathliad Cenhadol Merched Gogledd Cymru. Yn ogystal cynhaliwyd digwyddiadau i ddosbarthiadau ysgolion uwchradd, Noson Ferched, cyfarfodydd Sul a bore i deuluoedd ifanc. Amcangyfrifwyd bod tua 400 o ymwelwyr wedi dod. Gweddïwn dros yr had a blannwyd.

***1-8 May: Bethesda Presbyterian Chapel, Mold.***
*Collaborated with the Church to host the '**Biblical Women'** Art Exhibition which was launched during the North Wales' Women Missionary Celebration. In addition there were events for secondary school classes, Ladies Night, Sunday and a morning meeting for young families. It was estimated that around 400 visitors came. We pray for the seed that has been planted.*









Gweler mwy ac adroddiad: *See more and an article:* www.loisadams.art/wordlessbook

**24-28 Mai: Capel Bethesda, Y Gelli.**
Fel rhan o ymgyrch yr Eglwys yng Ngŵyl Y Gelli, crëwyd arddangosfa **"Y Llyfr Heb Eiriau"** gyda chefnogaeth MEC, *Show Jesus* ac ymddiriedolaeth Deo Gloria. Mae'n brofiad (*walk-through*) sy'n ysgogi pobl i feddwl am stori bywyd a'u cysylltu â phwyntiau allweddol yr efengyl. Roedd yr arddangosfa yn gyfle i sgwrsio â phobl a rhannu cariad Iesu gyda nhw.

***24-28 May: Bethesda Church, Hay on Wye.***
*As part of the church mission during Hay Festival we created **"The Wordless Book Experience"** with support from EMW, Show Jesus and Deo Gloria Trust. It is a walk-through experience that provoke people to think about life story and connect them with key points of the gospel. The display provided an opportunity to talk with people and share the love of Jesus with them.*







Gweler mwy: *To see more:* www.loisadams.art/product-page/gwyrdd

**2-9 Mehefin: Eglwys Efengylaidd Eglwysbach. Conwy.** Cynhaliodd yr eglwys arddangosfa gelf agored ar y thema **"Gwyrdd"**, yn eu neuadd bentref leol. Cymerodd llawer o artistiaid lleol ran a daeth llawer i'r digwyddiadau. Creodd Mared Emlyn (telynores) a minnau weithdy gyda'r ysgol leol ac roedd eu gwaith celf yn rhan o'r arddangosfa. Gweddïwch wrth iddynt gysylltu o'r newydd â'u cymuned leol.

***2-9 June: Eglwysbach evangelical church. Conwy.*** *The church hosted an open art exhibition on the theme of **"Green"**, at their local village hall. Many local artists participated and many attended their events. Mared Emlyn (harpist) and I created a workshop with the local school and their artwork was part of the exhibition. Pray for their renewed engagement with their local community.*







Gweler mwy: *To see more:* www.loisadams.art/product-page/llanelli-free-evangelical-church-mural

**12-29 Mehefin: Eglwys Rhydd Efengylaidd, Llanelli.**
Comisiynodd yr eglwys ni i beintio **murlun cymunedol** ar yr hen orsaf heddlu yng nghanol Llanelli (mae'r eglwys wedi ei brynu'n ddiweddar). Aethom i'r ysgol leol, clybiau a grwpiau cymunedol i gasglu syniadau i ffurfio'r dyluniad terfynol. Gwahoddwyd plant yr ysgol a'r gymuned i ddod i beintio'r murlun. Daeth llawer i'r digwyddiad agoriadol lle rhannodd yr eglwys ei gweledigaeth i fendithio eu cymuned leol.

***12-29 June: Free Evangelical Church, Llanelli.***
*The church commissioned us to paint a **community mural** on the old police station in the centre of Llanelli (which the church has recently bought). We went to the local school, clubs and community groups to collect ideas to merge into the final design. We invited the school children and the community to come and paint the mural. Many attended the opening event where the church shared its vision to bless their local community.*

CYLCHLYTHYR | NEWSLETTER

# Lois M Adams

Efengylydd Creadigol ac Artist Cymunedol
*Creative Evangelist & Community Artist*

www.loisadams.art
lois.adams@cwmpawd.org
07800901022
@lois.adams.921
1 The Avenue, Cardiff. CF3 3EG

O dan ofalaeth Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd.
*Under the care of Welsh Evangelical Church, Cardiff.*

**Ym mis Awst...**

- Cefnogi'r ymgyrch yn yr Eisteddfod Genedlaethol, gan wneud map mawr o Gymru!
- Daeth y 'Llyfr Heb Eiriau' i Gynadleddau Cymraeg a Saesneg MEC yn Aberystwyth, i ysbrydoli a chynnig ein gwasanaethau i'r Eglwysi.
- Mae Lio wedi dod yn rhan o Raglen Tyfu Eglwysi WLF a byddaf yn cyd-weithio â hi yn ystod y flwyddyn ar y prosiectau isod.

***In August...***

- *Supported outreach at the National Eisteddfod, making a large 3D map of Wales!*
- *'Wordless Book Experience' brought to the Welsh and English EMW Conferences at Aberystwyth to inspire and offer churches our services.*
- *Lio has become part of the WLF Growing Churches Programme and I will be co-working with her during the year, on these projects below.*









## Y tymor sydd i ddod...
## Medi - Rhag 2024

- Cyfarfodydd misol Morphe Arts Cymru a darllen y Beibl un i un gyda merched.
- **12-16 Hydref 2024 @ Canolfan Calon Taf Pontypridd**. Gŵyl Morfydd Llwyd Owen. Fe'n comisiynwyd i wneud gwaith celf ar dreftadaeth ysbrydol ei cherddoriaeth.
- '**All Create Scheme**' – cefnogi artistiaid lleol mewn ffyrdd ymarferol ac ysbrydol.
  - Arddangosfa Serameg Llif Cronig gan Ros Chicken (18-31 Hydref yn Parc Arts)
  - Stefania Del Zenero - Arddangosfa Solo Cyntaf (6-16 Tachwedd yn Parc Arts)

- 27 Hydref. Siarad am efengylu creadigol yn Calfaria, Eglwys Bedyddwyr, Penygroes, Sir Gaerfyrddin.
- 11-13 Tachwedd. Mynychu Cynhadledd 'Merched mewn Gweinidogaeth', gan MEC (Bala).
- Rhagfyr: Calendr Adfent Creadigol.
- 20-22 Rhagfyr: Efengylu Creadigol yn Eglwys Efengylaidd Amwythig.

**2025**

- 20 Ion - 2 Chwef: Cynnal cyfnod preswyl ac arddangosfa **Fforwm Gwaith Anorffenedig** yn Parc Arts, Pontypridd gyda Lio.
- 10-16 Chwef & 10-15 Mawrth: Gweithdai ac Arddangosfa Gelf Agored **'Yn y Dechreuad' yn Pwllheli** – Eglwysi Presbyteraidd Cymraeg Pen Llŷn.
- 1 Mawrth - 8 Mai: HADAU - Arddangosfa Gelf Agored yn Urban Crofters. Thema - **"Wedi gorffen?"**
- 29 Mawrth - Cynnal cynhadledd Morphe Arts & Urban Crofters HADAU.
- 22-26 Mai: Helpu ymgyrch Eglwys Bethesda yng **Ngŵyl y Gelli.**
- 2-9 Mehefin: Efengylu creadigol yn **Eglwysbach.**
- 16-21 Mehefin: Efengylu creadigol yn **Rhydaman.**
- 21-25 Gorffennaf: Efengylu creadigol yn **Llanfairpwll**, Ynys Môn.

## *This coming term...*
## *Sept - Dec 2024*

- *Monthly meetings of Morphe Arts Cymru and reading the Bible one to one with women.*
- ***12-16 October 2024 @ Canolfan Calon Taf. Pontypridd. Morfudd Llwyd Owen Festival.*** *Commissioned to make artwork on the spiritual heritage in her music.*
- ***'All Create Scheme'*** *- supporting local artists in practical and spiritual ways.*
  - *Chronic Flow Ceramics Exhibition by Ros Chicken (18-31 October @ Parc Arts)*
  - *Stefania Del Zenero - Debut Solo Exhibition (6-16 November @ Parc Arts)*

- *27 October. Speaking about creative evangelism at Calfaria Baptist Church, Penygroes, Carmarthenshire*
- *11-13 November. Attending the EMW Conference for Women in Ministry in Bala.*
- *December Creative Advent Calendar.*
- *20-22 Dec: Creative Evangelism at Shrewsbury Evangelical Church.*

***2025***

- *20 Jan - 2 Feb: Hosting residency and exhibition* ***Unfinished Works Forum*** *@ Parc Arts, Pontypridd.*
- *10-16 Feb & 10-15 March: Workshops and Open Art Exhibition* ***'In the Beginning'*** *@* ***Pwllheli -*** *Welsh Presbyterian Churches in Llŷn Peninsula.*
- *1 March - 8 May: HADAU - Open Art exhibition @ Urban Crofters. Theme -* ***"Is it finished?"***
- *29th March - Hosting Morphe Arts & Urban Crofters conference* ***HADAU****.*
- *22-26 May: Helping Bethesda Church outreach at the* ***Hay Festival****.*
- *2-9 June: Creative evangelism at* ***Eglwysbach****.*
- *16-21 June: Creative evangelism at* ***Ammanford.***
- *21-25 July: Creative evangelism in* ***Llanfairpwll,*** *Ynys Môn.*









**2 Corinthiaid 11:28**
**Ar wahân i bob peth arall, y mae'r gofal dros yr holl eglwysi yn gwasgu arnaf ddydd ar ôl dydd.**

Rwyf yn gwerthfawrogi'n arw eich cymorth ffyddlon (ysbrydol ac ymarferol) ac yn ddiolchgar tu hwnt am ddapariaeth Duw trwyddoch i gyd. Diolch o galon am weddïo dros y gwaith.

***2 Corinthians 11:28***
***Besides everything else, I face daily the pressure of my concern for all the churches.***

*I am indebted for your faithful help (spiritual and practical) and beyond grateful for God's provision through you all. Thank you from the bottom of my heart for praying for the work,*

Ewch i'r dudalen we hon i gefnogi'r weinidogaeth yn ariannol:
*Visit this webpage to support this ministry financially:*
www.loisadams.art/support